



UMPA

Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

4^{ydd} Chwefror 2013

Ystafell Bwyllgor

Yn Bresennol

Ben Meakin – Llywydd UMPA , Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
John Glasby – Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro UMPA
Emyr Phillips - Rheolwr Cyllid Dros Dro UMPA
Jessica Leigh – Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwr
Ioan Evans – Swyddog Gweithgareddau UMPA ac Ymddiriedolwr
Laura Dickens – Swyddog Cymorth Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Carys Thomas – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Josh James – Ymddiriedolwr sy'n Fyfyriwr Israddedig UMPA
Stephen Meacham – Ymddiriedolwr Allanol UMPA (Skype)
Rhys Dart – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

Hefyd yn Bresennol

Anmarie Evans – Clerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr UMPA

1. Ymddiheuriadau am Absenoldebau

Dim

2. Cymeradwyo'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd 3^{ydd} Rhagfyr 2012

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnodion gwir a manwl gywir.

3. Briff gan y Cadeirydd

Croesawodd BM bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd Emyr Phillips. Esboniodd fod yr Undeb wedi wynebu ail-strwythuro anodd ond hanfodol ac mai nawr yw'r amser i symud yn ein blaenau. Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am ymddiriedolwr allanol i'w gyflogi ac mae Dan Francis o UCM wedi dangos diddordeb, fe wnawn ddiweddarau'r grŵp fel bydd yr achos hwn yn datblygu.

4. Adroddiad y Swyddogion

Holodd BM os oedd gan y Bwrdd unrhyw gwestiynau am Adroddiad y Swyddogion a gafodd ei gyflwyno'n flaenorol.

- a. Cafodd cwestiynau eu holi am os oedd y gwaith mae BM yn ei wneud ar Ddigwyddiadau yn cymryd gormod o amser - esboniwyd fod Cynorthwydd Digwyddiadau bellach wedi cael eu penodi a fuasai'n rhoi mwy o amser rhydd i BM.
- b. Esboniodd JL nad oedd yr adroddiad a gafodd ei gyflwyno ganddi hi yn cynnwys y Siarter Myfyrwyr yn cael ei basio gan y Cyngor. Bydd JL yn dosbarthu hwn ar ôl y cyfarfod.

Gweithred –JL

- c. Rhoddodd LD wybod i'r grŵp ei bod hi wedi bod mewn sawl sgwrs gydag Aelodau Seneddol ynghylch y materion tai sydd yn wynebu myfyrwyr ar hyn o bryd. Awgrymodd RD i ni edrych ar gost sefydlu asiantaeth osod - os oes modd prynu'r un ffurf a sefydlwyd gan Undebau eraill. Awgrymodd i ni siarad â Chaerdydd a Morgannwg. **Gweithred - JG/LD**

5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro gan gynnwys diweddariad am ail-strwythuro

Rhoddodd JG fras olwg o'r adroddiad a gyflwynwyd ganddo ef yn flaenorol. Esboniodd y sefyllfa ariannol gyfredol sef fod ail-strwythuro o gyllid yr Undeb, gan ystyried gwerthiant Starbucks a Stone Willy's, yn golygu ein bod nawr yn rhagweld alldro o (£66k)

Rheolwr Gwasanaethau Aelodau - derbyniwyd ceisiadau da ac fe gynhelir cyfweiliadau ar ddydd Iau'r 7^{fed} a dydd Gwener yr 8^{fed} o Chwefror. Bydd Emily Cannon o UCM ar y panel.

Trafodwyd anhawster denu Cyfieithydd trwyddefnyddio Jobd Growth Wales oherwydd yr incwm isel a hysbysebwyd. Awgrymodd RD y posibilrwydd o ystyried talu i mewn i wasanaeth cyfieithu UCM. **Gweithred JG**

Hefyd fe esboniodd JG fod angen penodi Rheolwr Bwyd a Diod Cynorthwyol cyn gynted â phosib; nid oes gan y busnes gefnogaeth petai'r Rheolwr Bwyd a Diod cyfredol yn sâl neu'n absennol. Hefyd mae'r pwysau gwaith yn drwm iawn ar hyn o bryd oherwydd llwyddiant y gweithrediadau masnachu a gellid gwneud achos busnes ar gyfer rheolwr cynorthwyol. **Wedi ei gytuno gan y Bwrdd.**

Er bod JD yn cytuno gyda'r syniad, roedd hi'n poeni fod gormod o ganolbwyntio ar yr ochr Fasnachu a bod yr ochr Weithrediadau'n cael ei anghofio. Roedd nifer o broblemau ynghylch trefnu digwyddiadau a pha ystafelloedd oedd ar gael. Teimlodd IE fod Ail Ffair y Glas wedi cael ei dorri lawr i 3 diwrnod ac nad oedd Chwaraeon a Gweithgareddau yn derbyn cymorth digonol.

Sylwodd RD nad oedd amheuaeth fod Undeb y Myfyrwyr wedi bod mewn argyfwng ond fod angen i'r drafodaeth hon fod yn rhan o feddylfryd ehangach a fuasai yn ei dro'n dod yn rhan o Gynllun Strategol. Esboniodd ei fod wastad eisiau i Undeb y Myfyrwyr allu cynnig lle i fyfyrwyr ddefnyddio a dyma gyfle i'r Bwrdd i gydnabod y mater hwn a delio gydag ef. Mae angen siapio'r ochr fasnachol o gwmpas y gweithgareddau.

Atebodd BM ein bod wrth gwrs wedi goresgyn argyfwng heb strategaeth ar hyn o bryd. Unwaith mae'r Cynllun Strategol wedi ei sefydlu, fe ddylai hyn ail-gloriannu ei hun. Bydd Arolwg y Myfyrwyr yn helpu i adeiladu'r cynllun hwn ac i osod DPA. Bydd drafft cyntaf y strategaeth yn barod ar ddiwedd mis Ebrill. **Gweithred JG.**

Arlwyo yn yr Underground - JG yn dweud wrth y Bwrdd bydd ardal yr Underground ar gael i'w ddefnyddio fel y dymunwn. JG yn holi i bawb feddwl am beth i'w wneud â'r ardal ac anfon e-bost gyda'u syniadau. **Gweithred-PAWB**

Amcanion y Prif Swyddog Gweithredol (i'w gweithredu)

Amcan/DPA 9; Ymddiheurodd JG am y problemau yn ystod paratoi'r siop ar-lein ond fe fydd yn barod o fewn dyddiad.

Amcan/ DPA 10:- Arolygu'r gwasanaeth Cyfathrebu o fewn Undeb y Myfyrwyr a sicrhau fod Cynllun Cyfathrebu digonol ar gael ar gyfer gweddill 2013-31 a bod adnoddau ar gael i ddatblygu Strategaeth Gyfathrebu o 2013-14 ymlaen.

Cynigwyd: Adrodd yn ôl i'r Bwrdd am y Cynllun Cyfathrebu arfaethedig (gan gynnwys cynllun Cyfryngau Cymdeithasol) erbyn Mai 2013.

Cytunwyd gan y Bwrdd

Adroddiad Cyllid - EP wedi egluro bydd cyfrifon rheoli yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fwy eglur gyda sylwadau yn y dyfodol.

Eglurodd EP ein bod wedi cael ein cofrestru fel elusen a chyn belled fod yr Undeb yn dilyn cyfarwyddiadau ei ddogfen lywodraethu yna nid oes rheswm iddo beidio â pharhau'n arferol yn dilyn apwyntiad Ymddiriedolwr sy'n Fyfyriwr Ôl-raddedig ym mis Mawrth.

Llywodraethu

Eglurodd JG ei fod wedi darparu dogfen a gafodd ei baratoi gan Jan Sowa sydd yn amlinellu egwyddorion sylfaenol Llywodraethu Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ogystal â chanllaw clerico ar gyfer Annmarie.

Bydd cyflwyniad ar gyfer ymddiriedolwyr newydd erbyn 31/03/13.

Gweithred- JG

Rhoddodd RD wybod i'r grŵp ei fod yn gwneud ymchwil ar Ddatblygu Hyfforddiant er mwyn cynnal Bwrdd Perfformiad Uchel ac y buasai'n darparu gwybodaeth ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

Gweithred – RD.

Etholiadau

Mae paratoadau ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn ar droed gyda Gavin Allen wrth y llyw ac Emily Cannon/UCM Cymru â'r tîm Sabothol (sydd ddim yn ail sefyll) yn cynorthwyo. Mae cyhoedduswydd wedi ei osod yn ogystal â rhaglen glir am y digwyddiadau sydd yn arwain at yr etholid.

Cais Caledi UCM

JG yn hapus i ddatgan fod UCM wedi cytuno i leihau'n taliad o £10,000.

Unrhyw Faterion Eraill

Nododd IE iddo deimlo fod yr etholiadau yn cymryd gormod o amser Gavin Allen ac ein bod yn colli golwg ar weithgareddau, gan ddweud ei fod yn poeni byddai diffyg cefnogaeth yn golygu nad oedd digon o ganolbwyntio ar Super Teams.

Holodd JL sut yr ydym ni'n delio ag Aflonyddu Rhywiol, os oedd polisi o gwbl. Awgrymodd y Bwrdd iddo drafod gyda'r PSG cyn gynted â phosib.

Teimlodd CT nad yw nifer o'r staff yn deall y Polisi Ddwyieithrwydd ac fe gytunwyd fod Swyddogion a Rheolwyr Llinell yn trafod hyn gyda staff. Cytunwyd y buasai CT yn cyflwyno'r polisi i JG/Phil Hughes ac Alyson Salter.

Gweithred - CT

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener 22^{ain} o Fawrth am 10am.